2019

Proffil Llesiant Cymunedol



Rhagair Casnewydd

Terfynol

Gorffennaf 2019 v1.0

Tabl cynnwys

Rhagair....2
Cyflwyniad....2
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015....2
Ymagwedd Casnewydd o ran datblygu'r Asesiad Llesiant Lleol....3
Adolygiad a Diweddariad....3
Ymagwedd Ymglymiad ac Ymgysylltu....4

Rhagair

Cyflwyniad

Dyma ragair y Proffiliau Llesiant Cymunedol ar gyfer 2019. Mae'n esbonio beth yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r ymagwedd a fabwysiedir yng Nghasnewydd i ddatblygu'r proffiliau hyn, sy'n cefnogi'r Asesiad Llesiant Lleol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru. Ei nod yw sicrhau bod y cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf yn fyw ystyriol o'r tymor hir, yn gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, wrth geisio atal problemau a mabwysiadau ymagwedd fwy cyfunol.

Mae'r Ddeddf yn gosod "egwyddor datblygu cynaliadwy" sy'n ymwneud â sut mae cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf yn mynd ati i gyflawni eu dyletswydd llesiant dan y Ddeddf.

Mae'r egwyddor yn cynnwys pum modd o weithio y mae gofyn i gyrff cyhoeddus dalu sylw iddynt wrth weithredu datblygu cynaliadwy.



Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant sy'n cynnig gyda'i gilydd weledigaeth a rennir i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i weithio tuag ati. Mae'n rhaid i'r nodau hyn gael eu hystyried fel set integredig o saith er mwyn sicrhau y caiff y cysylltiadau perthnasol eu gwneud yng nghyd-destun gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Yn ogystal â'r ddyletswydd llesiant a roddir ar y cyrff cyhoeddus a restrir ar wahân, mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus penodol i weithio ar y cyd drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gan gyfrannu at gyflawniad y nodau llesiant.

Ymagwedd Casnewydd o ran datblygu'r Asesiad Llesiant Lleol

Fel rhan o'r ddyletswydd llesiant cyfunol mae gofyn i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o sefyllfa llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r asesiad hwn yn adlewyrchiad cywir o sefyllfa llesiant pob cymuned a'r ardal gyfan. O'r asesiad hwn fe wnaeth pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol yn nodi ei amcanion a'r camau y bydd yn eu cymryd i'w diwallu.

Cynhyrchwyd yr Asesiad Llesiant cyntaf ar y cyd ag amrywiaeth o bartneriaid. Roedd hwn yn cynnwys asesiad o sefyllfa llesiant Casnewydd yn ei chyfanrwydd ac ar gyfer yr 20 cymuned sy'n rhan o'r ardal gyfan. Enwyd y rhain yn Broffiliau Llesiant Cymunedol ac mae'r cymunedau dan sylw fel a ganlyn:

- Allt-yr-ynn
- Alway
- Beechwood
- Y Betws
- Caerllion
- Gaer
- Graig
- Langstone
- Llanwern
- Llyswyry
- Malpas
- Maerun
- Pillgwenlli
- Ringland
- Tŷ-du
- Shaftesbury
- Sain Silian
- Stow Hill
- Parc Tredegar
- Fictoria

Roedd yr ymagwedd hon yn cynnwys y gwaith gwerthfawr blaenorol a wnaed o fewn y proffiliau ward, tra hefyd yn diwallu anghenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Cyhoeddwyd y proffiliau llesiant cymunedol cyntaf ar 3 Mai 2017 yn dilyn ymgynghoriad â nifer o ymgynghoreion statudol gan gynnwys partneriaid, pwyllgor craffu'r awdurdod lleol, sefydliadau'r sector gwirfoddol a'r cyhoedd.

Adolygiad a Diweddariad

Gwpl o flynyddoedd wedi'r proffiliau llesiant cymunedol cyntaf mae'n amser adolygu a diweddaru pob proffil. Y ffocws ar gyfer y diweddariad yw:

- Diweddaru gyda'r data diweddaraf sydd ar gael.
- Adolygu a chyfuno cynnwys.
- Gwella'r cynllun a gwella'r ffordd y dangosir y setiau data os yn bosibl.
- Ail-edrych ar yr adborth o'r ymgynghoriad a gafwyd yn 2017.
- Symud at ddatrysiad rhyngweithiol ar-lein ar gyfer 2020.

Caiff y proffiliau eu diweddaru a'u hadolygu fesul cam a'u cyhoeddi fesul adran fel a ganlyn:

Cam	Adran	Is-adran
1	Rhagair a Phoblogaeth	Pawb
2	Llesiant Diwylliannol	Pawb
3	Llesiant Cymdeithasol	Tai
4	Llesiant Cymdeithasol	Diogelwch cymunedol
5	Llesiant Cymdeithasol	Iechyd
6	Llesiant Economaidd	Cryfder yr Economi, Incwm Oedolion, Budd-daliadau a Sgiliau Oedolion
7	Llesiant Economaidd	Amddifadedd a sgiliau plentyndod
8	Llesiant Amgylcheddol	Amrywiaeth Tirwedd
9	Llesiant Amgylcheddol	Aer, Ansawdd Dŵr, Llifogydd, Ôl-troed Carbon ac Ecolegol a Gwybodaeth Arall
10	Adran Grynodeb	Dd/B

Ymagwedd Ymglymiad ac Ymgysylltu

Fel a oedd yn ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 cynhaliwyd rhaglen ymgysylltu fel sail i ddatblygiad Proffiliau Llesiant Cymunedol.

Y diben oedd canfod beth yw barn pobl ar fyw yng Nghasnewydd a'u blaenoriaethau eang ar gyfer y dyfodol o ran eu llesiant eu hunain a llesiant eu cymuned.

Defnyddiwyd tri math o arolwg yn y rhaglen ymgysylltu hon:

- Arolwg byr gyda chwestiynau agored ynghylch beth oedd pobl yn ei hoffi fwyaf am fyw yng Nghasnewydd a beth oedden nhw eisiau gweld mwy ohono, neu lai ohono yn y dyfodol – Canlyniadau'r Arolwg.
- Arolwg hirach â chwestiynau mwy strwythuredig yn ymwneud â llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol – Canlyniadau'r Arolwg.
- Arolwg llesiant pobl ifanc a gafodd ei hyrwyddo trwy ysgolion (Cynradd ac Uwchradd) – Canlyniadau'r Arolwg.

Hefyd, siaradodd gweithwyr proffesiynol â'r cyhoedd mewn fforymau tenantiaid, digwyddiadau i deuluoedd, fforymau Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned partneriaid. Y nod oedd defnyddio cysylltiadau cymunedol partneriaid a pheidio â chynnal digwyddiadau a oedd yn gofyn i'r cyhoedd ddod atom ni, pan allen ni fynd atyn nhw.

Mae prif ddarganfyddiadau'r gwaith ymgysylltu a nodir uchod wedi'u crynhoi ym mhob adran o'r proffil ynghyd ag unrhyw adborth cyhoeddus perthnasol i roi cyd-destun ansoddol. Mae aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymgysylltu'n barhaus â'r cyhoedd ar amrywiaeth o wahanol bynciau, sy'n cefnogi'r broses o gyflwyno'r Cynllun Llesiant. Rhagwelir hefyd y bydd meysydd o ddiddordeb penodol a nodir trwy ymgysylltu yn cael eu hymchwilio mewn mwy o fanylder wrth i'r Cynllun Llesiant ddatblygu.